EISTEDDFOD GADEIRIOL CAPEL BRYNGWENITH, HENLLAN, ger Castellnewydd Emlyn

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith dydd Gwener 10fed, Ebrill 2026. Pleser yw datgan, mai dyma un o'r Eisteddfodau gorau o ran, naws gartrefol, presenoldeb, cefnogaeth, cystadleuaethau, safon Cerddorol a Llenyddol o'r radd flaenaf sydd wedi dod i ran yr Eisteddfod yn yr ardal wledig yma o Geredigion ers blynyddoedd maith. (Roedd y pedwar oedd wedi bod ar y lleuad yn cyrraedd yn ōl o'r lleuad, gan gyrraedd nol ar y mōr yr union yr un amser ag y gorffenwyd yr Eisteddfod am y noson ! (felly roedd yn Eisteddfod hwyr iawn iawn)

Y Beirniaid Cerdd oedd Meinir Jones Parry, B.Mus., I.R.S.M., Caerfyrddin; Beirniad Llenyddol oedd Bronwen Morgan, Bwlchllan / Llangeitho. Cyfeilyddes oedd Lyn James, U.C.W., Dip. Mus., Adpar, Castellnewydd Emlyn. Cadeiryddion : Teulu Dolau, Llandyfriog. Arweinyddion Dafydd James, Bronyglyn, Glynarthen; Geraint James, Arwerthwr Castellnewydd Emlyn; Parchedig Carys Ann B.A Gweinidog Capeli Hawen, Bryngwenith, Glynarthen, Capel y Wig, Pisgah, Pantycrugiau. Cenir cân y Cadeirio gan Glenys George. Cyflwynwyd Cadair fechan wedi ei gwneud gan Keith Thomas a'i chyflwyno danddo ef a'i briod Eirwen Thomas, Caerfyrddin (Eirwen Cross) cyflwynwyd Tlws yr Ifanc gan Y Cynghorydd Maldwyn Lewis.

Diolch am holl waith Swyddogion y Pwyllgor : Ysgrifennydd Parchedig Carys Ann, Cadeirydd Elonwy James, Is-Gadeirydd Brenda Jones, Trysorydd John Adams, yng ngofal cofnodi y canlyniadau – Glenys Williams (Jillian Jones) yng ngofal paratoi lluniaeth ysgafn yn y Festri Elonwy James gyda chymorth aelodau Capel Bryngwenith, yn eu plith Rhiannon Price, Brenda Jones, Elsie Evans, Morfydd Davies, Llinos James, Eirwen Thomas. Derbyniwyd cymorth ymarferol oddi wrth Gary James (Cross), Alan Davies (Gwynfryn), Chris a Glenys Williams (Blaenpant) Maldwyn Lewis (Penrhiw-pâl), Huw a John Adams, Eurig James. Yng ngofal cofnodi trwy luniau holl gystadleuwyr y dydd oedd Sue Davies, Nantgwylan, Coedybryn.

Gwerthfawrogir pob cymorth gan aelodau Neuadd Coedybryn, Y Prifardd Idris Reynolds, Maria Evans, Glenys George a nifer eraill o unigolion, ffrindiau, a holl gystadleuwyr o bell ac agos er sicrhau llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod. Mae ein diolch yn ddiffuant iawn**. Gobeithiwn y gorau am Eisteddfod Gadeiriol Capel Bryngwenith fydd ar ddydd Gwener yr 2il Ebrill, 2027 o 4.00 o'r gloch ymlaen.**

CANLYNIADAU

CYFYNGEDIG – I BLANT SYDD Â CHYSYLLTIAD AG EGLWYSI DAN OFAL Y PARCHEDIG CARYS ANN.

UNAWD OED MEITHRIN. 1af Endaf Lloyd, Talgarreg. 2il Sianco Davies, Llangrannog.

LLEFARU OED MEITHRIN. 1af Endaf Lloyd, Talgarreg.

UNAWD BLWYDDYN 1 a 2. 1af Gruffudd Davies, Llangrannog.

LLEFARU BLWYDDYN 1 a 2. 1af Gruffudd Davies, Llangrannog.

UNAWD BLWYDDYN 3 a 4. 1af Marged Evans, Penrhiw-pâl.

LLEFARU BLWYDDYN 3 a 4. 1af Marged Evans, Penrhiw-pâl. 2il Tudur Davies, Llangrannog. 3ydd Rheon Evans, Penrhiw-pâl.

UNAWD BLWYDDYN 5 a 6. 1af Neli Evans, Talgarreg. 2il Non Thomas, Talgarreg. 3ydd Betsan Lloyd, Talgarreg.

LLEFARU BLWYDDYN 5 a 6. 1af Grug Rees, Talgarreg. 2il Neli Evans, Talgarreg a 2il Non Thomas, Talgarreg. 3ydd Betsan Lloyd, Talgarreg.

UNAWD AR UNRHYW OFFERYN CERDD OED CYNRADD. 1af Neli Evans, Talgarreg. 2il Non Thomas, Talgarreg. 3ydd Marged Evans, Penrhiw-pâl a 3ydd Betsan Lloyd, Talgarreg.

AGORED

LLEFARU OED MEITHRIN. 1af Elain Richards, Rhydlewis. 2il Endaf Lloyd, Talgarreg. Ac 2il Steffan James Richards, Llwyncelyn.

UNAWD OED MEITHRIN. 1af Elain Richards, Rhydlewis. 2il Endaf Lloyd, Talgarreg. 3ydd Steffan James Richards, Llwyncelyn.

LLEFARU BLWYDDYN 1 a 2 1af Betsi Beaumont, Cwmann. 2il Alaw Richards, Llwyncelyn. A 2il Leisa Hatcher, Gorsgoch. 3ydd Tomos Davies, Talsarn.

UNAWD BLWYDDYN 1 a 2 1af Betsi Beaumont, Cwmann. 2il Leisa Hatcher, Gorsgoch. 3ydd Alaw Richards, Llwyncelyn.

LLEFARU BLWYDDYN 3 a 4 1af Tryfan Phillips, Talsarn. 2il Trefor Davies, Llanddewi Brefi. 3ydd Marged Evans, Penrhiw-pâl.

UNAWD BLWYDDYN 3 a 4 1af Trefor Davies, Llanddewi Brefi. 2il Marged Evans, Penrhiw-pâl. 3ydd Martha Jones, Llanfihangel ar Arth.

LLEFARU BLWYDDYN 5 a 6 1af Nanw Jones, Cwrtnewydd. 2il Neli Evans, Talgarreg. 3ydd Non Thomas, Talgarreg.

UNAWD BLWYDDYN 5 a 6 1af Nanw Jones, Cwrtnewydd. 2il Neli Evans, Talgarreg. 3ydd Non Thomas, Talgarreg.

DARLLENIAD O'R YSGRYTHUR – OED CYNRADD 1af Neli Evans, Talgarreg. 2il Nanw Jones, Cwrtnewydd. 3ydd Non Thomas, Talgarreg, a 3ydd Betsan Lloyd, Talgarreg, a 3ydd Marged Evans, Penrhiw-pâl, a 3ydd Hanna Sisto, Gorsgoch.

UNAWD AR UNRHYW OFFERYN CERDD - OED CYNRADD 1af Nanw Jones, Cwrtnewydd. 2il Neli Evans, Talgarreg. 3ydd Hanna Sisto, Gorsgoch. A 3ydd Marged Evans, Penrhiw-pâl.

PARTI UNSAIN DAN 16eg OED 1af Parti Merched Talgarreg

PARTI CYDADRODD 1af Parti Merched Talgarreg

CÂN WERIN DAN 16eg OED 1af Nanw Jones, Cwrtnewydd. 2il Marged Evans, Penrhiw-pâl. 3ydd Hanna Sisto, Gorsgoch.

LLEFARU OED YSGOL UWCHRADD 1af Magw Thomas, Llandysul. 2il Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd. 3ydd Alwena Owen, Llanllwni.

UNAWD OED YSGOL UWCHRADD 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd. 2il Alwena Owen, Llanllwni.

DARLLENIAD O'R YSGRYTHUR OED YSGOL UWCHRADD 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd. 2il Alwena Owen, Llanllwni. 3ydd Magw Thomas, Llandysul.

UNAWD AR UNRHYW OFFERYN CERDD – OED UWCHRADD 1af Alwena Owen, Llanllwni.

LLEFARU DAN 21 oed MONOLOG – 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd

2il Magw Thomas, Llandysul. 3ydd Alwena Owen, Llanllwni.

UNAWD CERDD DANT DAN 18 oed 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd. 2il Nanw Jones, Cwrtnewydd. 3ydd Hanna Sisto, Gorsgoch.

DARLLENIAD O'R YSGRYTHUR DROS 21 oed - 1af Maria Evans, Rhydargaeau

a 1af Miriam James, Saron.

CANU EMYN DAN 18 oed 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd. 2il Hanna Sisto, Gorsgoch.

UNAWD ALLAN O UNRHYW SIOE GERDD DAN 25 oed – 1af Ela Mablen Jones, Cwrtnewydd a 1af Alwena Owen, Llanllwni.

CANU EMYN DROS 18 oed – 1af Daniel Rees, Felindre. 2il Arwel Evans, Brynberian. 3ydd Miriam James, Saron a 3ydd Alwena Owen, Llanllwni.

UNAWD GYMRAEG WREIDDIOL DROS 21 oed – 1af Daniel Rees, Felindre. 2il Arwel Evans, Brynberian a 2il Robert Jenkins, Llanfihangel ar Arth. 3ydd Gerwyn Rees, Porthyrhyd.

HER UNAWD DROS 21 oed – 1af Arwel Evans, Brynberian. 2il Robert Jenkins, Llanfihangel ar Arth. 3ydd Gerwyn Rees, Porthyrhyd.

HER ADRODDIAD DROS 21 oed – 1af Carol Davies, Trebedw. 2il Maria Evans, Rhydargaeau.

****

LLENYDDIAETH

CYSTADLEUAETH Y GADAIR. CERDD AR Y TESTUN 'CADAIR' – Anwen James, Llangeitho.

TLWS LLENOR YR IFANC DAN 21 oed AM WAITH CREADIGOL, e.e. BARDDONIAETH, STORI, YSGRIF NEU DDRAMA – Lleucu Haf Thomas, Blaenannerch.

ENGLYN AR Y TESTUN 'YFORY' – John Thomas, Llyscoch, Cae Ram, Cwmann.

CÂN DDIGRI AR Y TESTUN 'DIOLCH' – Megan Richards, Aberaeron.

BRAWDDEG O'R GAIR 'C-E-R-D-I-N' – Megan Richards, Aberaeron.

LIMRIG YN CYNNWYS Y LLINELL 'RWY'N CAEL HI'N ANODD I GREDU' – Aled M Evans, Blaenwaun, Trisant, Aberystwyth.

HOFF ADNOD O'R BEIBL A PHAM – Delyth G Morgans Phillips, Talsarn.

****

TYNNU LLUN WEDI EI LIWIO MEWN AR BAPUR A4 FY HOFF GARTŴN oed Cynradd – 1af Gruffudd Davies, Llangrannog. 2il Sianco Davies, Llangrannog. Ac 2il hefyd Rheon Evans, Penrhiw-pâl.

Cynradd hŷn – 1af Tudur Davies, Llangrannog. A 1af Marged Evans, Penrhiw-pâl. 2il Rheon Evans, Penrhiw-pâl. ac 2il hefyd Marged Evans, Penrhiw-pâl.

TYNNU LLUN GAN DDEFNYDDIO CAMERA O UNRHYW BONT O FEWN 10 milltir I GAPEL BRYNGWENITH – 1af ac 2il Sue Davies, Nantgwylan, Coedybryn.